

PWYLLGOR ARCHWILIO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

23 Mai 2018

Yn Bresennol: Cynghorydd M Williams (Cadeirydd)

Mr A Archer, Dr R Heath Davies, Cynghorydd M James a'r
Cynghorydd R Owens.

*[Cyrhaeddodd y Cynghorydd D Clements adeg ystyried yr adroddiad
ar Gynllun Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru 2018 (y cyfeirir ato
yng Nghofnod 6)]*

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 12.30pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd P Baker, Mrs G Hayward a'r Cynghorydd P Kidney.

2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Swyddog Monitro newydd yr Awdurdod, Mr Rhys Stephens, i'r cyfarfod, yn ogystal ag i Mr David Long o Gateway Assure ac i Mr Deryck Evans o Swyddfa Archwilio Cymru. Hefyd gofynnodd i'r Pwyllgor gofio am Mrs Hayward yn eu meddyliau a'u gweddïau gan iddi ddioddef profedigaeth deuluol yn ddiweddar.

3. Datgan Buddiannau

Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

4. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14^{eg} o Chwefror 2018 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14^{eg} o Chwefror 2018.

5. Grŵp lechyd a Diogelwch: adroddiad y cyfarfod

Ystyriodd yr Aelodau adroddiad y cyfarfod o'r Grŵp lechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2018.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad o gyfarfod y Grŵp lechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2018.

6. Cynllun Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru 2018

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod yn cael ei archwilio bob blwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o drefniadau llywodraethu'r Awdurdod, ac roedd prif nodau'r broses hon wedi'u nodi yn yr



adroddiad. Roedd y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod wedi'i hamlinellu yng Nghynllun Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru 2018, ac roedd y rhaglen hon wedi'i hatodi i'r adroddiad.

Eglurodd Mr Evans o Swyddfa Archwilio Cymru bod dwy rhan i'r broses hon sef y gwaith o edrych yn ôl ar gyfrifon blynyddol 2017/18 yn ogystal â chyflawni gwaith o archwilio perfformiad. Hefyd, roedd yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru ystyried unrhyw wrthwynebiadau gan yr etholwyr lleol, ond ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad eleni hyd yn hyn. Eglurodd Mr Evans ei bod yn debygol y byddai Bil Llywodraeth Leol Cymru yn cynnig na fydd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 bellach yn gymwys i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol; felly byddai ffocws y rhaglen archwilio perfformiad yn fwy cyson â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Byddent hefyd yn edrych ar gydweithredu a phartneriaethau fel rhan o'r rhaglen pedair blynedd y cytunwyd arni gyda Parciau Cenedlaethol Cymru.

Gan droi at y ffioedd Archwilio, a nodwyd yn yr adroddiad, pwysleisiwyd bod Swyddfa Archwilio Cymru ond yn codi tâl am gost y gwaith, ac mewn gwirionedd byddai'r Awdurdod yn derbyn ad-daliad am waith 2017 gan fod hyn wedi'i wneud am gost is na'r disgwyl.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch pa mor aml y derbynnir cwestiynau a gwrthwynebiadau gan etholwyr lleol, cwmpas yr astudiaeth i werth am arian y gwasanaeth cynllunio, a natur debygol yr archwiliad ar gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Eglurodd swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru a'r Awdurdod nad oedd cwestiynau gan etholwyr yn digwydd yn aml, ond roeddent wedi derbyn un mewn perthynas â'r Awdurdod hwn ddwy flynedd yn ôl. Astudiaeth genedlaethol oedd Gwerth am Arian y Gwasanaethau Cynllunio fyddai'n casglu data o'r 25 awdurdod lleol ac yna'n tynnu sylw at faterion ac arferion da. O ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, nodwyd bod yr Awdurdod wedi Mabwysiadu'r Ddeddf yn Gynnar ac wedi bod yn rhan o'r cynlluniau peilot ynghylch cyflawni'r amcanion llesiant. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, roedd y rhaglen waith yn dal i gael ei hadolygu.

Dywedodd sawl Aelod iddynt sylwi ar gyfeiriad yn yr adroddiad at gyfres o seminarau rhad ac am ddim oedd yn rhan o Gyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru, gan ofyn a ellid dosbarthu manylion pellach am y seminarau hyn. Byddai hyn yn cael ei drefnu.

NODWYD.

7. Adroddiad yr Archwilydd Mewnol 2017/18

Gan ymddiheuro am absenoldeb ei gydweithiwr, Robin Pritchard, eglurodd David Long o Gateway Assure, bod yr adroddiad yn crynhoi canlyniad y gwaith a gwblhawyd ganddynt fel archwilydd mewnol yr Awdurdod yn erbyn cynllun archwilio gweithredol 2017/18.



Yn ystod y flwyddyn, roedd y gwasanaeth archwilio mewnol wedi adolygu'r materion canlynol - Diogelu, Rheolaethau Ariannol Allweddol - Cyflogres a Threuliau, Adnoddau Dynol, Incwm Grantiau, Adolygiad Adrannol - Cyfathrebu, Creu Incwm, a Gwiriad Iechyd Technoleg Gwybodaeth, ac roedd adroddiadau ar y materion hyn wedi'u cyflwyno yn flaenorol gerbron y Pwyllgor. O'r archwiliadau hyn, gan gymryd i ystyriaeth risg gymharol y meysydd busnes, ar y cyfan daethpwyd i gasgliadau positif iawn ynghylch y polisïau, y gweithdrefnau a'r gweithrediadau oedd ar waith, ac roedd camau priodol ac amserol wedi'u cymryd neu ar y gweill i weithredu'r argymhelliad. Roedd hyn yn golygu eu bod wedi dod i'r casgliad bod gweithdrefnau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu yr Awdurdod yn ddigonol ac yn effeithiol. Dim ond un argymhelliad arwyddocaol a wnaed, ynglŷn â'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth, ac roedd yr archwilydd yn fodlon â'r camau a gymerir i unioni hyn.

Holodd yr Aelodau pa gamau a gymerwyd ynglŷn â'r argymhelliad hwn, a chytunodd y swyddogion i ddod â'r wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Hefyd nododd yr Aelodau bod pob un o'r meysydd a archwiliwyd wedi derbyn barn sylweddol ac eithrio Adnoddau Dynol oedd wedi derbyn barn ddigonol, a holodd yr Aelodau a oedd hyn yn achos pryder neu yn amlygiad o les staff. Eglurodd yr Archwilydd bod barn ddigonol yn golygu nad oedd unrhyw fater sy'n peri pryder, ac ychwanegodd y Prif Weithredwr nad oedd unrhyw ddiffyg polisi neu ymagwedd yn y gwasanaeth dan sylw. Fodd bynnag, roedd Adnoddau Dynol yn adran fach, ac oherwydd lefelau recriwtio uchel, roedd yn adran brysur iawn ac o ganlyniad roedd rhai tasgau o bryd i'w gilydd yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Awgrymwyd y gellid gwneud cyflwyniad ar y system recriwtio newydd a gyflwynir ar hyn o bryd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

NODWYD.

8. Strategaeth Archwiliad Mewnol 2018/19 i 2020/21

Nodwyd bod Dogfen Strategaeth Archwilio newydd wedi'i dosbarthu i'r Pwyllgor gan mai fersiwn gynharach o'r ddogfen a anfonwyd allan yn wreiddiol.

Dywedodd Mr Long bod y Strategaeth Archwilio Mewnol yn strategaeth dreigl dros gyfnod o dair blynedd a bod hyn yn cael ei adolygu'n barhaus, ond roedd y strategaeth hefyd wedi bod yn destun diweddariad ffurfiol yn ddiweddar pan gafodd gweithrediadau a blaenoriaethau allweddol yr Awdurdod ar gyfer mewnbwn archwilio mewnol ei drafod gyda'r swyddogion. Y Strategaeth ddrafft gerbron yr Aelodau oedd ffrwyth gwaith y diweddariad, ond roedd y strategaeth yn parhau i fod yn fersiwn ddrafft hyd nes i'r Pwyllgor gymeradwyo'r drafft. Y meysydd a



glustnodwyd ar gyfer eu harchwilio yn 2018/19 fel y'u nodwyd yn Atodiad B oedd Rheoli Risg, Llywodraethu Corfforaethol, Castell Henllys, Meddalwedd Allweddol Ariannol - y Trysorlys, Iechyd a Diogelwch a Rheoli Ffilyd.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i'r archwiliadau o'r gwaith sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), Cenedlaethau'r Dyfodol neu systemau Adnoddau Dynol (AD) neu Technoleg Gwybodaeth yr Awdurdod (o ystyried y materion a glustnodwyd yn adroddiad 2017/18). Atebodd y swyddogion y byddai cydymffurfiaeth â'r GDPR yn cael ei ystyried yn y dyfodol unwaith y byddai'r gwaith o weithredu'r rheoliadau wedi'i wneud yn llawn a gan nad oedd unrhyw faterion archwilio penodol wedi'u clustnodi gydag Adnoddau Dynol byddai hyn yn cael ei ystyried eto mewn dwy flynedd fel rhan o'r cylch tair blynedd y cytunwyd arno. Ystyriwyd bod gwaith Cenedlaethau'r Dyfodol yn thema drawsbynciol yn hytrach na darn o waith ar wahân.

Holodd yr Aelodau hefyd am archwilio'r Ymddiriedolaeth yr oedd yr Awdurdod wedi cytuno i'w sefydlu yn ei gyfarfod yr wythnos flaenorol. Dywedodd swyddogion y byddai hyn yn endid annibynnol gyda'i ofynion archwilio ei hun. Fodd bynnag, byddai'r adolygiad nesaf o greu incwm yn cynnwys effaith gwaith yr Ymddiriedolaeth. Nodwyd hefyd y gellid cynnwys ffigurau ar yr incwm a gynhyrchir gan yr Ymddiriedolaeth mewn adroddiadau ar berfformiad y gyllideb yn y dyfodol.

NODWYD.

9. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod oedd yn diweddu ar 31 Mawrth 2018

Atgoffodd y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr Aelodau bod strwythur Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod ar gyfer 2017/18 yn amlygu strwythur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, oedd â saith o amcanion llesiant. Roedd yr adroddiad perfformiad hefyd wedi dilyn yr amcanion hyn, gydag adran ychwanegol sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Mawrth 2018, ac yn rhoi manylion pellach mewn perthynas â chynllunio, ymweliadau â'n gwefan a lawrlwytho teithiau cerdded ar y we, hawliau tramwy, canolfannau, gwirfoddoli a chynhwysiant cymdeithasol, addysg, canlyniad gwaith pilot Swyddfa Archwilio Cymru, a Chydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). O ran y GDPR, nodwyd bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi penodi Paul Funnell yn Swyddog Diogelu Data yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 16 Mai 2018.

Mynegodd un o'r Aelodau bryder ynghylch y cynnydd mewn penderfyniadau a wneir gan Aelodau sy'n groes i gyngor y swyddogion,



ac yn ofni na fyddai'r penderfyniadau a gymerwyd mewn cyfarfodydd yn ddiweddar yn cael eu hamlygu yn y ffigur hwn ac y gallai'r ffigur godi'n uwch fyth. Holodd a ddylai hyn gael ei amlygu yng Nghofrestr Risg yr Awdurdod. Cytunodd y Prif Weithredwr, gan gydnabod hawl yr Aelodau i wneud y cyfryw benderfyniadau a heb gyfeirio at unrhyw benderfyniad penodol, ond bod hyn yn bryder, yn enwedig o ran enw da yr Awdurdod. Yn y pen draw ni fyddai datblygiadau o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael eu dwyn gerbron os nad oedd unrhyw hyder y byddai'r datblygiadau sy'n cyd-fynd â'r polisi cynllunio yn cael eu cymeradwyo. Hefyd roedd hyn yn cael effaith ar y staff a allai deimlo nad oedd gan yr Aelodau unrhyw hyder yn eu hargymhellion. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cyfarwyddyd a Chynllunio bod y system yn seiliedig ar y cynllun, a bod yr Aelodau wedi cytuno ar y polisiau cynllunio sydd yn y cynllun. Dywedodd unwaith yn rhagor bod datblygiadau yn ymrwymiad ariannol hirdymor, a bod y diwydiant adeiladu angen cryn dipyn o sicrwydd yn y canlyniad. Roedd rhai Aelodau wedi amddiffyn y cyfryw benderfyniadau, gan gredu bod hynny i'w ddisgwyl mewn system ddemocrataidd. Hefyd mynegwyd y farn bod barn cymunedau lleol hefyd yn bwysig law yn llaw â barn y rhai yr ymgynghorir â hwy yn statudol. Yn ogystal, awgrymwyd y byddai hyfforddiant ar feysydd penodol, megis amddiffyn rhag llifogydd, o gymorth.

Mater arall oedd yn peri pryder i'r Aelodau oedd gorfodaeth, a'u gobaith oedd yn awr bod y swyddog newydd mewn swydd y byddai'r ôl-groniad o achosion, a'r amser a gymerir i ymchwilio i achosion, yn lleihau. Mynegwyd y farn bod angen mwy o swyddogion o bosibl, a gofynnwyd i'r swyddogion fonitro baich gwaith y staff. Atebodd y swyddogion bod gallu'r Awdurdod i orfodi yn fwy na llawer o awdurdodau eraill, i bob pwrpas, a dywedwyd bod y perfformiad galw heibio ar hyn o bryd yn dangos bod yr ôl-groniad yn gostwng. Holodd rhai Aelodau hefyd a oedd gormod o amodau yn cael eu gorfodi gan fod pob un yn cynyddu'r pwysau ar y gwasanaeth, ond awgrymwyd y gallai'r Aelodau a'r Cyngorau Cymuned gynorthwyo drwy fonitro ceisiadau yn eu gwahanol ardaloedd.

Cododd yr Aelodau gwestiynau ynghylch meysydd eraill, megis effeithiolrwydd parcmy'n haf, ac atebodd y swyddogion bod adroddiad ar hyn wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor Adolygu Gweithredol, a gallai'r adroddiad felly fod ar gael i Aelodau eraill. Hefyd roedd Mesur yn yr adroddiad perfformiad oedd yn cofnodi presenoldeb mewn digwyddiadau pop-yp, oedd yn aml yn cael eu trefnu gan y parcmy'n haf. Gofynnodd yr Aelodau a oedd hi'n bosibl cael gwybodaeth am nifer y ceisiadau i ffilmio a wireddir yn ogystal â nifer y ceisiadau ffilmio a dderbyniwyd. Atebodd y swyddog y byddent yn ymchwilio i weld a ellir darparu'r wybodaeth hon yn yr adroddiadau perfformiad yn y dyfodol. Yn olaf, gofynnodd yr Aelodau a roddir unrhyw gydnabyddiaeth swyddogol i'r rhai sy'n gwirfoddoli i'r Awdurdod. Roedd y swyddogion o'r farn nad oedd, er bod



cydnabyddiaeth ar lefel leol, fodd bynnag, roeddent yn cytuno y byddai hyn yn werth chweil.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad perfformiad.

10. Cofrestr Risg

Cyflwynodd y Prif Weithredwr y gofrestr risg ddiweddaraf a adolygwyd yn ddiweddar gan Dimau Rheoli ac Arweinyddiaeth yr Awdurdod pan nodwyd y camau ymlaen a gymerwyd a'r newidiadau. Ni fu unrhyw newidiadau arwyddocaol yn y risgiau oedd wedi cael eu nodi neu eu dileu yn ystod y chwarter.

Amlygwyd tri risg yn benodol - risg 15 o benderfyniad diffygiol ar faterion cynllunio oedd eisoes wedi'i drafod ac y byddai'n cael ei adolygu; risg 2 mewn perthynas â risg tymor canolig i dymor hir o ostyngiad sylweddol mewn cyllid, a risg 41 sef effaith Brexit, er y cydnabuwyd, yn ogystal â gostyngiad posibl mewn cyllid, y gallai fod cyfleoedd megis rhaglen bosibl sy'n canolbwyntio ar y llethrau arfordirol a allai ddod ag adnoddau ychwanegol. Awgrymodd un Aelod y dylai risg 1 – sef y risg tymor byr o ostyngiad sylweddol mewn cyllid, gael ei gynyddu i liw melyn.

NODWYD.

11. Adroddiad ar Berfformiad y Gyllideb – 12 mis yn diweddu mis Mawrth 2018

Yn absenoldeb y Rheolwr Cyllid, dywedwyd bod y cyfrifon blynyddol yn y broses o gael eu cwblhau, a bod disgwyl iddynt gael eu cyflwyno i'r Archwilydd ganol mis Mehefin. Bu 2017/18 yn flwyddyn dda yn ariannol, gyda pherfformiad cryf o'r Canolfannau a'r meysydd parcio a ffioedd cynllunio uwch na'r arfer. Roedd yn debygol y byddai gwarged ar ddiwedd y flwyddyn, ond efallai y bydd rhywfaint o'r arian hwnnw yn cael ei ddyrannu i'r problemau parhaus ar y sarn yng Nghaeriw, ac y gellid dyrannu adnoddau ychwanegol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad yn yr achosion gorfodi.

NODWYD.

12. Newidiadau Deddfwriaethol mewn Diogelu Data

Dechreuodd y Prif Weithredwr drwy ddiolch yn ffurfiol i Mair Thomas, Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr Awdurdod, am ei holl waith caled yn sicrhau bod yr Awdurdod yn barod ar gyfer cyflwyno'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol newydd a ddaeth i rym ar 25 Mai.

Aeth Swyddog Diogelu Data yr Awdurdod rhagddo i roi cyflwyniad oedd yn amlinellu rôl yr Awdurdod o ran diogelu data a'r modd yr oedd hynny yn newid yn sgîl y ddeddfwriaeth newydd. Aeth ymlaen i amlinellu'r



camau ymarferol yr oedd yr Awdurdod yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd, a chanlyniadau hyn i'r Aelodau.

Gan ddiolch i'r swyddog am gyflwyniad hawdd ei ddilyn, gofynnodd yr Aelodau a oedd rhestr syml ar gael o bethau i'w gwneud a pheidio â'u gwneud, a chytunodd y swyddog i ddosbarthu'r ffeithlun 12 pwynt iddynt a baratowyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Hefyd gan y byddai'r rhan fwyaf o wybodaeth y byddent yn ei dderbyn yn dod drwy'r e-bost, dywedodd y dylent ddileu e-byst oddi ar eu blychau post unwaith y byddent wedi ymdrin â hwy. Hefyd dywedodd bod Aelodau yn defnyddio eu cyfeiriadau e-bost PCNPA yn hytrach na'u cyfeiriad e-bost personol, i ymateb i ohebiaeth.

NODWYD.

13. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion oedd yn peri pryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

